Adroddiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil 2021/22

Cyflwyniad

Mae Prifysgol Glyndŵr wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Mae'r Brifysgol yn parhau i ddefnyddio'r concordat fel fframwaith i wreiddio diwylliant ac amgylchedd o arferion gorau ac ymchwil cyfrifol. Mae'r egwyddorion a'r ymrwymiadau'n cynnwys:

- cynnal y safonau uchaf o drylwyredd ac uniondeb ymhob agwedd ar ymchwil
- sicrhau y cynhelir ymchwil yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol
- cefnogi amgylchedd ymchwil sy'n cael ei ategu gan ddiwylliant o uniondeb ac wedi'i selio ar lywodraethu da, arfer orau, a chefnogaeth ar gyfer datblygu ymchwilwyr
- defnyddio prosesau tryloyw, amserol, cadarn a theg i ddelio â honiadau o gamymddwyn ymchwil pan maent yn codi
- cydweithio i gryfhau uniondeb ymchwil

Mewn cydymffurfiaeth ag ymrwymiad terfynol Concordat 2019, mae Bwrdd Llywodraethu'r Brifysgol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar uniondeb ymchwil, sydd wedi ei ystyried a'i dderbyn gan Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol, a gan y Bwrdd Academaidd, cyn ei gyhoeddi'n gyhoeddus ar dudalennau gwe allanol y Brifysgol.

Cysylltiadau Allweddol ac Unigolyn a Enwir

Mae Pwyllgor Ymchwil y Brifysgol yn goruchwylio uniondeb ymchwil y Brifysgol ar ran y Bwrdd Academaidd. Mae'r Pwyllgor Ymchwil yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn ac mae 'Adolygu Polisi ac Achosion o Gamymddwyn Ymchwiliol' ac 'Adolygu Hyrwyddo Uniondeb Ymchwil' yn eitemau sefydlog.

Unigolyn a Enwir y Brifysgol ar gyfer Uniondeb Ymchwil yw'r Uwch Is-ganghellor Ymchwil, Yr Athro Richard Day. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall pryderon mewn perthynas ag uniondeb ymchwil fod yn gymhleth ac yn sensitif dros ben, sy'n gallu effeithio ar les emosiynol a meddyliol y rhai sy'n gysylltiedig. Gall unrhyw un sy'n dymuno mynegi, yn gyfrinachol, pryderon am ddull o gynnal ymchwil, neu uniondeb ymchwil a gynhaliwyd o dan nawdd y Brifysgol, wneud hynny drwy gysylltu â'r Unigolyn a Enwir ar gyfer uniondeb ymchwil, Yr Athro Richard Day, neu'r pwynt cyswllt a enwir, sef Pennaeth y Gwasanaethau Ymchwil, Frances Thomason.

Yn ogystal, gellir codi pryderon ar lefel leol i ddechrau, drwy Ddeoniaid y Cyfadrannau academaidd.

Polisïau a Gweithdrefnau

Mae *Cod Ymarfer* y Brifysgol a'r *Rheoliadau ar Arferion Ymchwil* ar waith i sicrhau bod aelodau staff, a myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sy'n cymryd rhan mewn ymchwil yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau moesegol, a bod ganddynt set o egwyddorion y disgwylir iddynt gadw atynt yn unol ag arfer orau a chynnal ymchwil mewn modd cyfrifol. Mae'r *Rheoliadau ar Arferion Ymchwil* yn amlinellu diffiniadau'r Brifysgol o gamymddwyn ymchwil a'r gweithdrefnau i'w dilyn pan mae honiad o gamymddwyn mewn ymchwil.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad tryloyw a chlir sy'n dilyn safonau arfer orau. Yn dilyn adolygiad o'r broses foeseg ymchwil a gwaith y Brifysgol i roi system ar-lein newydd ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ac adolygu'r modd y caiff y broses foeseg ymchwil ei rhoi ar waith, cymeradwywyd y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn ym Mehefin 2022 gan y Pwyllgor Ymchwil:

- Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol
- Gweithdrefn Apeliadau Moeseg Ymchwil y Brifysgol
- Gweithdrefn Moeseg Ymchwil ar gyfer Ymchwil a Gynhelir y tu allan i'r DU
- Gweithdrefn Moeseg Ymchwil ar gyfer Gwaith a Gynhelir ag Anifeiliaid
- Gweithdrefn Moeseg Ymchwil ar gyfer Gwaith a Gynhelir â Gweddillion Dynol
- Gweithdrefn Moeseg Ymchwil ar gyfer Effeithiau Amgylcheddol Niweidiol Posibl

Mae Gweithdrefn Datgan Diddordeb y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban) yn darparu mecanwaith lle gall pryderon dilys a wneir yn ddidwyll gael eu codi'n fewnol heb fod ofn unrhyw sgil effeithiau ar yr unigolyn.

Yn dilyn adolygiad o'r polisïau a'r gweithdrefnau moeseg ymchwil sydd ar waith yn y Brifysgol yn 2021/22, cynhelir adolygiad o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yng nghyswllt uniondeb ymchwil a chamymddwyn ymchwil yn ystod 2022-23.

Gweithgareddau a Datblygiadau ym Maes Uniondeb Ymchwil

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau a chynnal amgylchedd ymchwil sy'n datblygu arferion ymchwil da ac yn gwreiddio diwylliant o uniondeb ymchwil. Cydnabyddir bod rhaid mabwysiadu sawl menter i gryfhau'r ddealltwriaeth o uniondeb ymchwil ar draws y Brifysgol. Mae'r canlynol yn cynnwys mentrau a gynhaliwyd ers ein datganiad diwethaf a gyhoeddwyd yn 2021, ynghyd â pha weithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer eu rhoi ar waith yn ystod 2022/23.

- Rhoi System Gwybodaeth Ymchwil Glyndŵr Wrecsam (WGRIS) ar waith, sy'n cynnwys proses gyflwyno ac adolygu Grantiau Moeseg Ymchwil ac Ymchwil. Bydd swyddogaeth y datrysiad cwmwl yn golygu y bydd angen i'r holl brosiectau ymchwil ar bob lefel, sy'n gofyn am gymeradwyaeth y system foeseg ymchwil, gyflwyno a derbyn cymeradwyaeth trwy'r system ar-lein, cyn y bydd unrhyw waith casglu data neu recriwtio yn cychwyn. Bydd y system arlein yn mesur ac yn adolygu ceisiadau yng nghyswllt moeseg yn ôl lefel y risg dan sylw. Bydd y broses yn cynnwys gwirio pryderon eraill o ran llywodraethu ymchwil a chydymffurfiaeth, fel rheoli data, diogelwch gwybodaeth ac yswiriant. Caiff yr holl geisiadau yr ystyrir bod eu lefel risg yn isel iawn eu prosesu a'u hadolygu gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Cyfadran. Caiff ceisiadau sy'n ymwneud â lefel uwch na hynny o risg eu hadolygu gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol. Disgwylir y bydd y cam cyntaf, sef Datblygu Proffil, yn mynd yn fyw yn nes ymlaen eleni, gydag ochr Foeseg a Grantiau'r system yn dilyn yn fuan yn 2023.
- Cafodd sesiynau a gweithdai hyfforddiant newydd eu hychwanegu at Amserlen Hyfforddiant a Datblygu y Brifysgol. Mae'r sesiynau hyn ar gael i'r holl staff academaidd a myfyrwyr ymchwil ôl-radd. Trefnwyd y digwyddiadau hyfforddi a ganlyn: Cyflwyniad i Foeseg Ymchwil, Gweithdy Cydsyniad ar Sail Gwybodaeth, Cyflwyniad i Uniondeb Ymchwil, Gweithdy Rheoli

Risg Mewn Ymchwil, Rheoli Data Ymchwil, Gweithdy Cyfrinachedd a Phreifatrwydd Mewn Ymchwil.

- Daeth y Brifysgol yn llofnodwr o'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfaoedd Ymchwilwyr. Sefydlwyd gweithgor o 'Hyrwyddwyr y Concordat' sy'n goruchwylio cynlluniau gweithredu ac ymrwymiadau'r sefydliad i'r concordat. Mae'r gweithgor yn bwrw ymlaen a dadansoddiad o'r bylchau yn y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil ac yn cynnal grwpiau ffocws ag ymchwilwyr i drafod eu hanghenion a'u dealltwriaeth o uniondeb ymchwil.
- Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad o'r bylchau, cynllun y Brifysgol yw ailymweld â'r polisïau a'r gweithdrefnau presennol yn y Cynllun ar gyfer Camymddwyn Ymchwil yn 2023.
- Datblygwyd Modiwl Uniondeb Academaidd ar gyfer myfyrwyr a addysgir i'w gyflwyno yn ystod yr Wythnos Groesawu ar gyfer myfyrwyr sy'n ymuno â'r Brifysgol.

Camymddwyn Ymchwil

Mae cyfrifoldebau am fonitro camymddwyn ymchwil yn y Brifysgol yn nwylo'r Swyddfa Ymchwil sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil, a gaiff ei gadeirio gan yr Uwch Is-ganghellor Ymchwil a'r Tîm Uniondeb Ymchwil o fewn Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Delir â honiadau o gamymddwyn ymchwil gan staff y Brifysgol a myfyrwyr yn unol â darpariaethau Gweithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol ar gyfer Staff a/neu'r Weithdrefn Ddisgyblaeth ar gyfer Myfyrwyr, ynghyd â'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd neu'r Weithdrefn Addasrwydd Ymarfer, fel y bo'n briodol. Mae gan weithdrefnau cysylltiedig egwyddorion a mecanweithiau priodol i sicrhau bod ymchwiliadau'n drylwyr a theg, eu bod yn cael eu cynnal mewn modd tryloyw ac amserol, a'u bod wedi'u diogelu gan gyfrinachedd priodol.

Ymchwiliadau

Ni adroddwyd am unrhyw achosion o gamymddwyn ymchwil yn ystod 2021/22 mewn perthynas â staff myfyrwyr ôl-radd. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi manylion lefel uchel ymchwiliadau a chanfyddiadau yng nghyswllt honiadau o gamymddwyn ymchwil sy'n ymwneud â myfyrwyr a addysgir yn y Brifysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2021/2022, yn seiliedig ar ddiffiniad y Brifysgol o Gamymddwyn Ymchwil. Ymchwiliwyd i'r achosion hyn o dan y Weithdrefn Uniondeb Ymchwil.

	Cadarnhawyd	**Cadarnhawyd yn rhannol**	**Heb ei gadarnhau**
Myfyrwyr a Addysgir			
Methiant i gael caniatâd priodol i gynnal ymchwil	3		
Celwydd	6		1
Ffugiad			
Ystumio a/neu gamliwio data a/neu fuddiannau a/neu ymrwymiad			
Llên-ladrad			
Priodoli awduraeth yn amhriodol			
Annog eraill i ymwneud â chamymddwyn ymchwil			
Cydgynllwynio neu guddio camymddwyn ymchwil gan eraill			

Methiant i ddilyn gweithdrefnau cyffredin neu i arfer gofal priodol wrth gyflawni cyfrifoldebau			